Brig y Goeden

# TEIGR AMRYLIW
## Mr Stofflys

ROBIN MELLOR



# TEIGR AMRYLIW
# Mr Stofflys

ROBIN MELLOR

Lluniau gan Lesley Harker



DRAKE

# 1



Doedd dim byd byth yn digwydd yn fflatiau Gwaun yr Afon. Eisteddai Ravi, Yasmin a Pedr ar y wal o flaen y fflatiau.

Bob bore byddai Mrs Saki yn mynd â'i chi am dro. Bob bore deuai Mr Walker allan drwy ei ddrws, edrychai ar yr awyr, ac âi i mewn eto. Bob dydd deuai'r dyn llaeth. Fyddai'r un ohonynt yn cymryd unrhyw sylw o'r tri phlentyn.



"Does dim byth yn digwydd," cwynai Ravi.

Edrychodd Pedr i fyny.

"Aros funud," meddai. "Mae rhywbeth yn digwydd."

Roedd fan fechan las yn aros y tu allan i'r fflatiau. Sbïodd y plant tra daeth dyn allan. Aeth i gefn y fan ac agorodd y drysau. Roedd y fan yn orlawn o fagiau a blychau.






"Mae'n symud i mewn," meddai Yasmin.

Dalion nhw i edrych tra oedd y dyn yn codi'r blychau allan o'r fan. Edrychai'n gyffrous. Gwisgai glogyn hir porffor â sêr arian arno. Roedd ysgrifen ar ochrau pob un o'r blychau.




Trodd Mr Stofflys a gweld y plant. "Beth sydd yn y blychau?" gofynnodd Pedr.

Dim ond gwenu wnaeth Mr Stofflys.

Roedd y plant am aros, ond roedd tad Pedr yn galw. "Mae'n amser cinio," dywedodd.

Ar ôl cinio daeth Ravi, Yasmin a Pedr yn ôl i flaen y fflatiau. Ond roedd y fan wedi diflannu. Edrychon nhw ym mhob man am Mr Stofflys. Doedd dim golwg ohono.





"Fe'i gwelwn ni e eto yfory," meddai Yasmin.

Ond y bore wedyn fedren nhw ddim cael hyd i Mr Stofflys. Buon nhw'n chwilio a chwilio. O'r diwedd aethon nhw i fyny i ben y grisiau ar y llawr cyntaf. Dyna lle'r oedd Mr Stofflys. Roedd yn paentio'r wal.

Safodd Ravi, Yasmin a Pedr ac edrych.



Yn gyntaf paentiodd e sgwâr mawr gwyn. Roedd e'n defnyddio brws mawr. Pan oedd y paent gwyn wedi sychu cododd frws main. Trochodd e yn y paent du a dechreuodd dynnu amlinell.

"Beth yw e'n mynd i fod?" gofynnodd Pedr.

Dim ond gwenu wnaeth Mr Stofflys.





"Ceffyl," meddai Yasmin.

"Na," meddai Pedr, "llew yw e."

"Jiraff yw e," meddai Ravi.

Cododd Yasmin ei gwar. "Efallai nad anifail fydd e o gwbl."

Yn sydyn dywedodd Ravi, "Teigr yw e."

"Ie," meddai Mr Stofflys.

# 2



Yn ofalus luniodd Mr Stofflys y pen, y trwyn, y llygaid, y wisgers, y corff, ac, yn olaf i gyd – y gynffon.

Sychodd y chwys oddi ar ei wyneb.

"Rhaid imi adael iddo sychu nawr," meddai. "Yna byddaf yn ychwanegu'r lliw."

Roedd yn rhaid i Ravi, Yasmin a Pedr fynd.






"Na hidiwch," meddai Mr Stofflys. "Gallwch ddod i'w weld yfory. Fe fydda i wedi ei orffen erbyn hynny."

Y bore wedyn cododd Mr Stofflys yn gynnar. Ychwanegodd y lliw. "Nawr mi adawa i i'r paent sychu," meddai wrtho'i hun. Yna aeth allan.

Cyn gynted ag yr oedden nhw wedi cael brecwast, daeth Ravi, Yasmin a Pedr i weld y llun.




Safodd y plant o flaen y llun.

Ar ôl ychydig funudau dywedodd Pedr, "Mae'n llun da. Mae'n edrych fel teigr go iawn."

"Ydi," meddai Yasmin, "ond welais i erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen."

"Na," meddai Ravi. "Ond ar wahân i hynny mae'n edrych fel teigr go iawn â llygaid byw."





Amrantiodd y teigr ac yna trodd ei lygaid i edrych arnynt.

"Ac mae'r geg yna'n edrych yn real," meddai Pedr.

Crychodd y teigr ei wisgers ac agorodd ei geg.

"Rwyt ti'n iawn," meddai Yasmin. "Mae'n edrych yn ddigon real i ddod yn fyw."



Ysgydwodd y teigr ei gynffon, estynnodd ei goesau ac yn araf ymdroediodd allan o'r llun.

Camodd y plant yn ôl a syllu'n syn.

Edrychodd y teigr o gwmpas a ffroenodd yr awyr. Yna trodd a rhedodd i fyny'r grisiau.

"Mae'n mynd i fyny'r grisiau," gwaeddodd Pedr. "Dewch mlaen. Gadewch inni ei ddilyn."





Rhedodd y plant i fyny'r grisiau ar ôl y teigr.

Ar yr ail lawr agorodd Mr Singh ei ddrws i gymryd y llaeth i mewn. Edrychodd mewn syndod wrth weld y teigr yn bwrw'r botel drosodd â'i bawen.



Yna dechreuodd lyfu'r llaeth a gollwyd.

"Mawredd," meddai Mr Singh. "Welais i erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen."

Gorffennodd y teigr y llaeth. Ffroenodd yr awyr eto a rhedodd i lawr y grisiau. Dilynodd y plant.



Pan gyrhaeddodd y tu allan dechreuodd y teigr gerdded tua'r siopau. Roedd dau weithiwr wedi bod yn trwsio twll yn yr heol. Nawr roedden nhw'n eistedd ar y wal yn bwyta brechdanau. Cymerodd y teigr frechdan gan un o'r gweithwyr. Bwytaodd y frechdan. Yna bwytaodd bob un o'r brechdanau o'i flwch bwyd. Yna bwytaodd y blwch bwyd.




"Welaist ti hynna?" meddai un o'r gweithwyr. "Fy mlwch bwyd!"

Dim ond siglo ei ben wnaeth y gweithiwr arall. "Welais i erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen," dywedodd.






Cychwynnodd y teigr eto tua'r siopau. Pan gyrhaeddodd y gornel eisteddodd y teigr i lawr ar ganol yr heol. Fedrai bws rhif 6 ddim mynd heibio iddo.

Cododd y gyrrwr ei gap a chrafu ei ben. "Welais i erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen," dywedodd.



Gwaeddodd rhai o'r teithwyr ar y teigr. "Tyrd ymlaen! Symud!"

Ni chymerodd y teigr unrhyw sylw ohonynt. Yn y diwedd rhoddodd y gyrrwr ganiad ar gorn y bws a symudodd y teigr o'r ffordd.

Ymhlith y teithwyr roedd athrawes o'r ysgol. "Mae hyn yn ddiddorol," meddai. "Bydda i'n ysgrifennu i'r papurau newydd amdano."



# 3



Roedd hen wraig yn mynd â'i chi bach am dro.

Dechreuodd y ci gyfarth pan welodd y teigr. Tynnodd yn y tennyn ac roedd am chwarae.

Arhosodd y teigr. Edrychodd ar y ci, cododd ei ben a dwedodd, "RRRHUUOOOO".


Cuddiodd y ci dan sgert yr hen wraig.

"Wel, wel, wel," meddai'r hen wraig. "Welais i erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen."



Yng nghanol y sgwâr roedd y Cyngor Tref wedi plannu gwely blodau mawr prydferth. Cerddodd y teigr yn araf i mewn i'r gwely blodau. Rholiodd ar ei gefn yng nghanol y blodau a gwthiodd ei bedair coes yn syth i'r awyr. Yna caeodd y teigr ei lygaid a gwnaeth sŵn grwndi uchel.





Erbyn hyn roedd y siopwyr i gyd wedi gweld y teigr yn rholian yn y gwely blodau. Daethant i gyd allan o'u siopau i weld beth oedd yn digwydd.

"Welson ni erioed deigr o'r lliw yna o'r blaen," dywedon nhw i gyd. "Fedr e ddim aros yno. Bydd yn wael i'n busnes. Bydd ein cwsmeriaid yn cael eu dychryn gan deigr lliw od."



Anfonodd rhywun am yr heddlu. Daeth y plismyn ac edrych ar y teigr. Siaradodd un ohonynt i mewn i'w radio. "Teigr yw e," meddai, "ond welais i erioed un o'r lliw yna o'r blaen."



Roedd y plismyn a'r siopwyr yn ceisio penderfynu beth i'w wneud ynghylch y teigr, pan ddaeth Mr Stofflys rownd y gornel.

"Beth sy'n digwydd?" gofynnodd i Ravi, Yasmin a Pedr.



“Eich teigr chi,” medden nhw. “Mae e wedi dod yn fyw. Ac mae wedi yfed llaeth Mr Singh, wedi bwyta brechdanau gweithiwr, wedi atal bws, wedi dychryn ci a nawr mae’n rholian yn y gwely blodau.”

Edrychai Mr Stofflys yn ofidus. “O diar. Dyna beth cas. Mi geisia i roi trefn ar bethau.”

Aeth draw at y teigr a sibrydodd yn ei glust.





Safodd y teigr ar ei draed a dilynodd Mr Stofflys. Dilynodd y plant nhw. Aethant ar draws y sgwâr, ar hyd y ffordd, yn ôl i fflatiau Gwaun yr Afon ac i fyny’r grisiau.

Patiodd Mr Stofflys y teigr ar ei ben a’i oglais dan ei ên. Pwyntiodd at y sgwâr gwyn gwag.

“Nawr,” meddai mewn llais cadarn. “’Nôl ar y wal.”



Chwyrnodd y teigr yn dawel, siglodd ei gynffon, plygodd ei goesau a neidiodd yn ôl i mewn i'r llun.

Rhwbiodd Mr Stofflys ei ddwylo. "Dyna fe. Fe ddylai hwnna fod yn ben arni."

"Mr Stofflys," gofynnodd Ravi, "fydd y teigr yn dod i lawr o'r wal eto?"

"Fydd e'n bwyta rhywun?" gofynnodd Pedr.





Siglodd Mr Stofflys ei ben.

"Peidiwch â gofidio. Fe arhosith e'n saff yn y llun nawr."

Drannoeth cododd y plant yn gynnar a dweud, "Sgwn i beth fydd yn digwydd heddiw?"

Ar ôl brecwast aethon nhw i edrych am Mr Stofflys. Daethon nhw ar ei draws e yn edrych ar y wal wrth ben y grisiau ar yr ail lawr.

Gwenodd arnyn nhw.



"Hylo," meddai. "Beth wna i baentio heddiw?"

"Llew," meddai Pedr.


"Na," meddai Ravi. "Tsita."

Meddyliodd Yasmin am eiliad. "Fy hoff anifail i yw eliffant ond os daw hwnnw'n fyw…"

Cydiodd Mr Stofflys mewn brws paent a gwenodd eto.

"O'r gorau. Eliffant amdani."






# *Am yr awdur*

Cefais fy magu yn Abertawe, ond rwy'n byw yn awr yn Rochester yng Nghaint.

Weithiau mae storïau cyfan yn dod imi, fel *Teigr Amryliw Mr Stofflys*, ond i ddweud y gwir, y syniad am y teigr a ddaeth imi yn gyntaf. Weithiau mae'n rhaid imi weithio am amser hir ar fy storïau.



Rwy'n byw gyda fy nheulu a chi gwirion o'r enw Jackie sy'n hoffi eistedd ar fy mhapurau – a thegan meddal orang-utan o'r enw Dexter sy'n teithio o gwmpas ysgolion gyda mi.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 10**

*Tric y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell
*Y Sgwinc* gan Rita Ray
*Bosgi Stryd y Coed* gan Rita Ray
*Shorts Jyngl* gan Irene Rawnsley
*Teigr Amryliw Mr Stofflys* gan Robin Mellor
*Y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell
*Deinosoriaid Deian* gan Michaela Morgan
*Botymau Porffor* gan Angela Bull
*Y Llythyr Anghywir* gan Alan Macdonald
*Esgidiau Pysgod Jeli* gan Susan Gates
*Berti Barfddu yn Achub yr Ysgol* gan Alan Macdonald
*Y Merched Mewn Mwgwd a'r Môr-ladron* gan John Coldwell
*Y Siwt Sbageti Fawreddog* gan Alan Macdonald
*Trowsus Twp* gan Susan Gates

# TEIGR AMRYLIW

## *Mr Stofflys*

Does dim byd byth yn digwydd yn fflatiau Gwaun yr Afon – ond yna mae Mr Stofflys yn symud i mewn. Mae Mr Stofflys yn paentio teigr ar y wal a dyw pethau byth yr un fath wedyn…



Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 10

ISBN 0-86174-436-5

9 780861 744367

ISBN 0 86174 436 5

DRAKE